

Dirnad Economi Cymru

Adroddiad blynyddol

Medi 2022

Crynodeb Gweithredol	3
1. Rhagymadrodd	5
2. Rhagolygon economaidd byd-eang, y DU a rhanbarthol	6
3. Darlun BBaCh yn y DU a Chymru	12
4. Darparu cyllid BBaCh a chost cyllid	17
5. Gweithgaredd Banc Datblygu Cymru	25
6. Effaith economaidd buddsoddiadau'r Banc Datblygu yn 2021/22	32
7. Casgliadau	35
Atodiad 1: Methodoleg amcangyfrif effaith economaidd	36
Atodiad 2: Adnoddau dethol a ddiweddarir yn aml	37

Max Munday, Annette Roberts, Neil Roche a Nuo Jin

Uned Ymchwil Economi Cymru, Ysgol Busnes Caerdydd
mundaymc@cf.ac.uk

I gael rhagor o wybodaeth neu i gyflwyno adborth a chynigion ymchwil, e-bostiwch: DirnadEconomi@bancdatblygu.cymru

Mae'r SYG wedi rhoi cyngor ar gynhyrchu'r adroddiad hwn ond nid yw'n gyfrifol am y safbwyntiau na'r ystadegau a gyflwynir ac nid yw wedi dilysu'r cynnwys.

Dirnad Economi Cymru Cyfyngedig, Uned J Pentref Busnes Iâl, Ffordd Ellice, Wrecsam, Cymru, LL13 7YL, 11001584.

Banc Datblygu Cymru ccc (Development Bank of Wales Plc) yw cwmni daliannol Grŵp sy'n masnachu fel Banc Datblygu Cymru. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o is-gwmnïau sydd wedi'u cofrestru ag enwau gan gynnwys y blaenlythrennau BDC. Mae Banc Datblygu Cymru ccc yn gwmni cyllid datblygu sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Weinidogion Cymru ac nid yw wedi'i awdurdodi na'i reoleiddio gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (ARhD) na'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (AYA). Mae gan Fanc Datblygu Cymru (Development Bank of Wales Plc) dri is-gwmni sydd wedi'u hawdurdodi a'u rheoleiddio gan yr AYA. Sylwch nad yw Banc Datblygu Cymru ccc nac unrhyw un o'i is-gwmnïau yn sefydliadau bancio nac yn gweithredu felly. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un o endidau'r grŵp dderbyn blaendaliadau gan y cyhoedd. Mae siart strwythur cyfreithiol cyflawn ar gyfer Banc Datblygu Cymru ccc ar gael yn bancdatblygu.cymru.

- Bu pesimistiaeth gynyddol ar ragolygon twf economaidd byd-eang yn hanner cyntaf 2022 oherwydd y rhyfel yn yr Wcráin a phryderon cynyddol ynghylch costau bwyd ac ynni. Mae grwpiau rhagweld wedi israddio amcangyfrifon o dwf byd-eang ar gyfer 2022 a 2023.
- Gwelwyd gwelliant ym Mynegai Hyder Busnesau Bach Cymru yn y chwarter hyd at 2022 Ch1, pan aeth yn ôl i diriogaeth gadarnhaol.
- Cofnododd y DU a Chymru gynnydd cymharol uchel mewn marwolaethau busnes yn y flwyddyn hyd at 2022 Ch1.
- Tyfodd cyfradd ddiodyn y DU ar fenthyciadau i fusnesau bach yn 2022 Ch2.
- Yn 2021/22 cwblhaodd Banc Datblygu Cymru 519 o fuddsoddiadau, gyda chyfanswm gwerth o £109m. Roedd y buddsoddiadau hyn yn gysylltiedig â thua 2,630 o swyddi newydd ac wedi'u diogelu.
- Ers ei lansio ym mis Hydref 2017, y nifer cronnus o fuddsoddiadau a wnaed gan y Banc Datblygu yn y cyfnod hyd at ddiwedd 2021/22 oedd 3,304, gyda gwerth y buddsoddiadau yn bron i £530m.
- Amcangyfrifir bod y swyddi uniongyrchol/gros a grëwyd ac a ddiogelwyd gan fuddsoddiadau dethol y Banc Datblygu yn 2021/22 yn gysylltiedig â £143.8m o GYG. Unwaith y rhoddir ystyriaeth i difuddiant, dadleoli, amnewid ac effeithiau lluosydd, amcangyfrifir y bydd yr effaith yn £85.8m o GYG. Mae hwn yn effaith ychwanegol net sy'n gysylltiedig â'r swyddi a gefnogir gan fuddsoddiadau dethol a wnaed gan y Banc Datblygu.

Mae lefelau ansicrwydd economaidd wedi bod yn codi yn ystod hanner cyntaf 2022.

Mae hyn o ganlyniad i bwysau chwyddiant a'r gadwyn gyflenwi sydd wedi'u gwaethygu ymhellach gan y rhyfel yn yr Wcrain. Mae'r rhyfel yn parhau i gael effeithiau eang ar yr economi fyd-eang.

Mae grwpiau rhagweld economaidd wedi bod yn israddio rhagolygon ers dechrau 2022.

Yn ystod chwarter cyntaf 2022, amcangyfrifir bod CDG y DU wedi cynyddu 0.8%. Gostyngodd CDG y DU 0.3% ym mis Ebrill 2022.

Yn dilyn twf o 1% yn 2021 Ch4, gostyngodd buddsoddiad busnes y DU 0.5% yn 2022 Ch1.

Yn 2022 Ch1, roedd buddsoddiad busnes y DU 9.1% yn is na'r lefel cyn-Covid-19 yn 2019Ch4.

Rhwng mis Mawrth a mis Mai 2022, cyrhaeddodd nifer y swyddi gwag yn y DU y lefel uchaf erioed o 1.3m, sef cynydd o

20,000 ers y chwarter blaenorol. Cynyddodd cyfanswm nifer y swyddi gweithlu yn y DU i amcangyfrif o 35.6 miliwn ym mis Mawrth 2022. Fodd bynnag, **mae nifer y swyddi hunangyflogaeth yn y DU yn parhau i fod 600,000 yn is na lefelau Rhagfyr 2019.**

Amcangyfrifwyd bod cyfradd ddiweithdra'r DU ar gyfer y cyfnod o dri mis hyd at Ebrill 2022 yn 3.8%. Yn yr un cyfnod, amcangyfrifwyd bod y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru yn 3.5%.

Roedd cyfartaledd y rhagolygon annibynnol (a dderbyniwyd rhwng 1-13 Mehefin 2022) ar gyfer twf CDG y DU yn 2022 yn 3.6%, a disgwyliar twf o 0.9% yn 2023. Ddechrau **mis Mai, adolygwyd rhagolygon Banc Lloegr ar gyfer twf CDG y DU yn 2023 i lawr o 1.25% i -0.25%.**

Yn eu Rhagolwg Economaidd y DU ar gyfer y Gwanwyn a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022,

Crynodeb Gweithredol

torrodd NIESR ei ragolwg twf CDG y DU ar gyfer 2022 i 3.5% o 4.8%, ac israddio ei ragolwg ar gyfer 2023 i 0.8% o 1.3%. Rhagwelodd NIESR fod GYG Cymru wedi rhagori ar lefelau cyn-bandemig a rhagwelir y bydd yn tyfu'n gyflymach na chyfartaledd y DU.

Cynyddodd mynegai hyder busnesau bach ar gyfer y DU a Chymru yn 2022 Ch1. This Mae'r cynnydd hwn mewn hyder yn syndod, o ystyried y cyd-destun economaidd. Bydd yn ddi-ddorol olrhain y dangosydd hwn yn rhan olaf 2022.

Cofnododd Cymru gynnydd bach mewn genedigaethau busnes yn y flwyddyn hyd at 2022 Ch1. Yn dilyn y duedd a welwyd yn ffigurau'r DU ar gyfer cau **busnesau, cynyddodd marwolaethau busnesau yng Nghymru o 4,075 yn 2021 Ch1 i 4,610 yn 2022 Ch1.**

Hyder BBaCh Cymru yn cynyddu yn 2022 Ch1

Cynyddodd y mynegai hyder yng Nghymru i diriogaeth gadarnhaol yn 2022 Ch1, i fyny 45.5 pwynt o 2021 Ch4, i +14. Dim ond Llundain (+43) a Dwyrain Canolbarth Lloegr (+17) a sgoriodd yn uwch ar y mynegai hyder yn 2022 Ch1.

Adroddodd Arolwg o Effeithiau ac Amodau Busnes (BICS) y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y cyfnod 30 Mai 2022 i 12 Mehefin 2022 mai'r prif bryder i fusnesau ym mis Gorffennaf 2022 oedd chwyddiant mewn prisiau nwyddau a gwasanaethau, gyda hyn yn cael ei nodi gan 32.4% o fentrau'r DU a 35.2% yng Nghymru. Nodwyd prisiau ynni ac amhariad ar y gadwyn gyflenwi yn aml hefyd fel pryderon.

Datgelodd Arolwg o Amodau Credyd Banc Lloegr fod y gyfradd ddiiofyn ar fenthyciadau i fusnesau bach wedi newid o +3.4 yn 2022Ch1 i +25 disgwylidig yn 2022Ch2. At hynny, gwelodd y galw yn y dyfodol am fenthycia cardiau credyd gan fusnesau bach, a'r galw am fenthycia ansicredig hefyd falansau cadarnhaol cryf yn 2022Ch2 (hy, +22.4, a +19.8) yn y drefn

honno. Un casgliad yn hynny o beth yw bod **amodau busnes llymach yn dilyn chwyddiant cynyddol yn dechrau taro sefyllfa cyfalaf gweithio cwmnïau llai ac yn eu gwthio tuag at lefelau uwch o alw am arian allanol.**

Mae Traciwr Ecwiti Busnesau Bach 2022 gan Fanc Busnes Prydain wedi datgelu bod £18.1bn wedi'i fuddsoddi mewn busnesau bach potensial twf uchel yn 2021, gyda buddsoddiad ecwiti i fyny 88% o 2020. Datgelodd y Traciwr Ecwiti gyfanswm o 2,616 o gytundebau yn y DU yn 2021 i fyny o 2,244 yn 2020. **Yng Nghymru cyhoeddwyd 60 bargaen yn 2021, a oedd i lawr 22% ers 2020. Fodd bynnag, gwerth buddsoddiad ecwiti yng Nghymru yn 2021 oedd £83m, sef cynnydd o 44% ers 2020.**

Mae risg credyd sy'n gysylltiedig â BBaCh yng Nghymru yn un ffactor sy'n pennu a fydd banciau'n rhoi benthyg i gwmnïau. Ym mis Mehefin 2022, roedd gan **bron i 56% o BBaChau Cymru risg gymharol uwch o fethiant, gyda 4.8% yn y categori risg uchaf.**

Yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 cwblhaodd Banc Datblygu Cymru fuddsoddiadau gwerth £109m, a gefnogodd bron i 2,630 o swyddi newydd a rhai a ddiogelwyd. Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021/22, mae cyfanswm cronnus o bron i £530m wedi'i fuddsoddi gan y Banc Datblygu ers ei lansio ym mis Hydref 2017.

Amcangyfrifir bod y swyddi uniongyrchol a grëwyd neu a ddiogelwyd yn 2021/22 gan fuddsoddiadau dethol yn gysylltiedig â £143.8m o GYG mewn termau gros a **£85.8m o GYG mewn termau net, ar ôl ystyried difuddiant, dadleoli, amnewid ac effeithiau lluosydd.**

Dyma bedwerydd Adroddiad blynyddol Dirnad Economi Cymru. Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o weithgareddau buddsoddi Banc Datblygu Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, a sylwebaeth ar y cyd-destun economaidd byd-eang a lleol a'r amodau sy'n effeithio ar y cyflenwad a'r galw am gyllid yng Nghymru.

Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar adeg o ansicrwydd economaidd uchel parhaus. Mae'r DU ac economiau eraill y byd yn profi pwysau chwyddiant sylweddol, ac mae'r rhyfel yn yr Wcrain yn parhau i effeithio ar gadwyni cyflenwi, argaeledd adnoddau a chostau. Mae tensiynau daearyddol wleidyddol hefyd wedi gwaethgu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. I fusnesau, mae pwysau costau a phrinder llafur yn gyffredin mewn sawl rhan o'r economi, tra bod cartrefi'r DU yn cael eu heffeithio'n gynyddol gan yr argyfwng costau byw, gyda'r rhagolygon yn nodi y bydd cynnydd pellach mewn costau ynni yn nhymor yr Hydref. Mewn perthynas ag economi'r DU (a byd-eang), prin yw'r arwyddion o optimistiaeth, gydag ansicrwydd gwleidyddol yn y DU yn annhebygol o fod yn gwella optimistiaeth.

Mae adrannau 2-4 o'r adroddiad hwn yn darparu cyd-destun macro-economaidd y DU a Chymru lle mae BBaChau Cymru yn gweithredu ynddo. Yna mae'r adroddiad yn archwilio ffactorau sy'n ymwneud â'r galw am gyllid busnesau bach a chanolig (BBaCh), a'r cyflenwad a'r gost o'r cyllid hwnnw.

Mae gan yr adrannau hyn yr amcanion i ddeall:

- Ffactorau macro-economaidd sy'n llywio'r galw am gyllid BBaChau yng Nghymru.
- Tueddiadau mewn twf BBaCh, busnesau sy'n dechrau o'r newydd, a rhagolygon goroesi busnesau yng Nghymru.

- Cyflenwi cyllid i BBaCh yng Nghymru.
- Y symiau a'r mathau o fenthycya/fuddsoddi i mewn i BBaChau yng Nghymru.

Mae Adran 5 yn crynhoi gweithgareddau Banc Datblygu Cymru yng nghyd-destun y ffactorau sy'n effeithio ar y galw a'r cyflenwad o gyllid i BBaChau yng Nghymru.

Mae'r adran hon yn archwilio:

- Y defnydd o gronfeydd y Banc Datblygu i ariannu BBaChau Cymru, a pha fathau o fentrau a diwydiannau sy'n cael eu cefnogi.
- Dosbarthiad daearyddol buddsoddiad BBaChau o amgylch Cymru.

Mae Adran 6 yn darparu rhywfaint o ddadansoddiad o effaith economaidd y buddsoddiadau a wnaed gan y Banc Datblygu yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22. Mae'r adran olaf yn rhoi rhai casgliadau cyffredinol i'r adroddiad.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig i raddau helaeth ar ddata sydd ar gael i'r cyhoedd (a adroddir yn gyffredinol mewn blynyddoedd calendr) ynghyd â dadansoddiad arbennig o ddata a ddarparwyd gan Fanc Datblygu Cymru (adroddir yn bennaf mewn blynyddoedd ariannol). Oherwydd gwahaniaethau yn y cyfnodau adrodd, bydd rhywfaint o ddiffyg cyfatebiaeth amserol rhwng data yn yr adroddiad hwn. Mae data economaidd sy'n ymwneud â rhagolygon ac effeithiau'r argyfwng yn yr Wcrain ar yr economi fyd-eang a lleol yn newid yn gyflym. Mae sefydlu darlun economaidd amserol o effeithiau ar draws tirwedd BBaCh Cymru felly yn heriol.

- Cynyddodd pesimistiaeth ar ragolygon twf economaidd byd-eang yn ystod hanner cyntaf 2022 oherwydd y rhyfel yn yr Wcrain a phryderon cynyddol ynghylch costau bwyd ac ynni. Mae grwpiau rhagweld wedi israddio amcangyfrifon o dwf byd-eang ar gyfer 2022 a 2023.
- Amcangyfrifir bod CDG y DU wedi cynyddu 0.8% yn 2022 Ch1. Roedd lefel y CDG chwarterol yn 2022 Ch1 0.7% yn uwch na'r lefel cyn-Covid-19 (2019 Ch4). Fodd bynnag, gostyngodd CDG y DU 0.3% ym mis Ebrill 2022, yn dilyn gostyngiad o 0.1% ym mis Mawrth 2022.
- Mae amodau'r farchnad lafur wedi tynhau ymhellach ledled y DU. Mae lefelau uchel o swyddi gwag. Roedd gan Gymru un o'r cyfraddau diweithdra isaf yn y DU yn y tri mis hyd at Ebrill 2022 (3.5%, o gymharu â 3.8% ar gyfer y DU).

Mae rhagolygon economaidd byd-eang yn ansicr iawn yn hanner cyntaf 2022

Ers datblygiad yr argyfwng Wcrain ym mis Chwefror 2022, mae pwysau chwyddiant wedi cynyddu ac mae prisiau ynni yn parhau i gynyddu. Mae cyfnodau clo byd-eang wedi ychwanegu at y problemau byd eang ar draws y prif ganolfannau economaidd Tsieineaidd a achoswyd gan y pandemig Covid-19 parhaus yno. Yn eu Rhagolygon Economaidd Byd-eang ym mis Mehefin 2022, honnodd Banc y Byd fod yr economi fyd-eang wedi dioddef mwy o risgiau byd-eang a rhanbarthol yn hanner cyntaf 2022 nag a ddisgwyliwyd yn eu cyhoeddiad ym mis Ionawr 2022¹. Roedd y risgiau hyn yn cynnwys chwyddiant uchel, prisiau ynni cynyddol, amodau ariannol llai ffafriol, ac aflonyddwch i'r gadwyn gyflenwi, yn ogystal ag effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn y polisi "sero-Covid-19" yn Tsieina.

Yn ôl Banc y Byd, disgwylir i dwf economaidd byd-eang ostwng o 5.7% yn 2021 i 2.9% yn 2022. Mewn economïau mwy datblygedig, rhagwelir y bydd twf yn disgyn o 5.1% yn 2021 i 2.6% yn 2022,

sef 1.2 pwynt canran islaw eu rhagamcanion lonawr. Mewn marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg ac economïau sy'n datblygu (MDAED), rhagwelir y bydd twf economaidd yn gostwng o 6.6% yn 2021 i 3.4% yn 2022. Mae Banc y Byd hefyd yn ystyried tynhau polisi ariannol yr Unol Daleithiau, yr argyfwng mewnfario ynni yn Ewrop, a chyfnodau clo parhaus yn Tsieina fel bygythiadau newydd mawr i'r economi fyd-eang.

Yn ogystal, dadansoddodd The Economist y cynnydd diweddar o 0.75 pwynt canran yng nghyfradd llog meincnod y Gronfa Ffederal a honnodd y gallai polisi ariannol crebachu yn yr Unol Daleithiau achosi beichiau ariannol pellach a thwf economaidd arafach mewn MDAEDau.² Disgwylir i gyfraddau llog uwch yn yr UD hefyd effeithio ar y DU trwy newidiadau yn y gyfradd gyfnewid gyda doler yr UD yn cryfhau yn erbyn y bunt / sterling. Yn Tsieina, gostyngwyd y rhagolwg o dwf economaidd yn 2022 o 5.1% i 4.3% oherwydd cyfnodau clo llymach Covid-19.

¹ <https://www.worldbank.org/en/news/press-release/2022/06/07/stagflation-risk-rises-amid-sharp-slowdown-in-growth-energy-markets>

² <https://www.economist.com/finance-and-economics/2022/06/15/eight-days-that-shook-the-markets>

Bydd rhyfel parhaus Wcráin yn achosi adweithiau cadwyn pellach yn yr economi byd-eang

Mae nifer o ganlyniadau y mae'r ymosodiad ar yr Wcráin wedi eu hysgogi: costau byw uwch, galw byd-eang gwannach, ac ansicrwydd cynyddol mewn marchnadoedd byd-eang³. Pwysleisiodd Rhagolwg Economaidd⁴ interim yr OECD, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022, hefyd effeithiau'r rhyfel yn yr Wcrain, a thynnodd sylw at y posibilrwydd o ddirwasgiad economaidd.

Yn Sefyllfa a Rhagolygon Economaidd y Byd a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022 gan y Cenhedloedd Unedig⁵, ystyriwyd y rhyfel yn yr Wcrain fel un o'r prif ffactorau a fydd yn effeithio ar yr adferiad economaidd byd-eang yn 2022. Dim ond 3.1% yw amcangyfrif y Cenhedloedd Unedig o dwf economaidd byd-eang yn 2022 a 2023 ill dau, sydd yn

is na rhagolygon y Cenhedloedd Unedig o 4.0% a 3.5% a wnaed ym mis Ionawr.

Dadleuodd y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (NIESR) ym mis Mawrth 2022⁶ y bydd effaith y rhyfel yn arwain at leihau CDG byd-eang o dros 1% ar ddiwedd 2022 a bod amcangyfrifon o dwf CDG byd-eang yn 2022 a 2023 yn cael eu hisraddio i 3.3% a 3.2% yn y drefn honno.

Adroddodd Banc Canolog Ewrop (BCE) dwf CDG o 0.3% ar gyfer economi Ardal yr Ewro yn chwarter olaf 2021 a gostyngodd amcangyfrifon o dwf CDG yn 2022 Ch1. Yn ôl data gan Eurostat, gwelodd Ardal yr Ewro gyfradd chwyddiant o 8.1% ym mis Mai 2022, gan godi o 7.4% ym mis Ebrill 2022⁷.

Tyfodd CDG y DU yn 2022 Ch1

Yn ystod chwarter cyntaf 2022, amcangyfrifir bod CDG y DU wedi cynyddu 0.8%. Roedd lefel y CDG chwarterol yn 2022 Ch1 0.7% yn uwch na'r lefel cyn-Covid-19 (2019 Ch4)⁸. Fodd bynnag, gostyngodd CDG y DU 0.3% ym mis Ebrill 2022, yn dilyn gostyngiad arall o 0.1% ym mis Mawrth⁹. Y sector gwasanaeth oedd y prif gyfrannwr at dwf economaidd oedd yn crebachu

ym mis Ebrill, gyda chwymp mewn allbwn o 0.3%. Bu gostyngiadau hefyd mewn allbwn yn y sectorau cynhyrchu ac adeiladu ym mis Ebrill 2022. Dyma'r tro cyntaf i bob prif sector wneud cyfraniadau negyddol i amcangyfrif CDG misol ers mis Ionawr 2021. Amcangyfrifodd Banc Lloegr y bydd CDG y DU yn gostwng yn 2022Ch2 oherwydd llai o incwm gwirioneddol aelwydydd¹⁰.

³ <https://thedocs.worldbank.org/en/doc/5d903e848db1d1b83e0ec8f744e55570-0350012021/related/Implications-of-the-War-in-Ukraine-for-the-Global-Economy.pdf>

⁴ <https://www.oecd-ilibrary.org/sites/62d0ca31-en/index.html?itemId=/content/publication/62d0ca31-en>

⁵ <https://www.un.org/development/desa/dpad/publication/world-economic-situation-and-prospects-june-2022-briefing-no-161/>

⁶ <https://www.niesr.ac.uk/publications/walking-line?type=global-economic-outlook>

⁷ https://ec.europa.eu/eurostat/statistics-explained/index.php?title=Inflation_in_the_euro_area

⁸ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpfirstquarterlyestimateuk/januarytomarch2022>

⁹ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpmonthlyestimateuk/april2022>

¹⁰ <https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-report/2022/may-2022>

Crebachodd buddsoddiad busnes y DU yn 2022 Ch1

Yn dilyn twf o 1% yn 2021 Ch4, gostyngodd buddsoddiad busnes y DU 0.5% yn 2022 Ch1¹¹. Yn y chwarter cyntaf, tyfodd buddsoddiad mewn offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), cynhyrchion eiddo deallusol (CED) a pheiriannau ac offer eraill, tra gwelwyd cwmp mewn buddsoddiad busnes mewn offer trafndiaeth ac adeiladau a strwythurau eraill. Yn 2022 Ch1, roedd buddsoddiad

busnes y DU 9.1% yn is na'r lefel cyn-Covid-19 yn 2019 Ch4. Cadarnhaodd Banc Lloegr fod buddsoddiad busnes yn parhau'n wan yn Ch1 2022 oherwydd tarfu ar y gadwyn gyflenwi a risgiau daearyddol wleidyddol diweddar. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrif o fuddsoddiad busnes hirdymor y DU yn parhau i fod yn gadarnhaol, er ei fod yn llawer llai optimistaidd na'r disgwyl ym mis Chwefror 2022.

Cyrhaeddwyd record newydd uchel yn nifer y swyddi gweigion yn y DU mewn marchnad lafur sy'n tynhau

Rhwng mis Mawrth a mis Mai 2022, cyrhaeddodd nifer y swyddi gwag yn y DU y lefel uchaf erioed o 1.3m, sef cynnydd o 20,000 ers y chwarter blaenorol¹². Er bod cyfradd twf chwarterol swyddi gweigion wedi gostwng i 1.6% o 5.6% yn y chwarter blaenorol, mae nifer y swyddi gweigion yn cynyddu'n gyson. Cyrhaeddodd cymhareb y swyddi gweigion i bob 100 o swyddi cyflogaeth y lefel uchaf erioed o 4.3 yn ystod Mawrth-Mai 2022.

Cynyddodd cyfanswm nifer y swyddi gweithlu yn y DU i amcangyfrif o 35.6 miliwn ym mis Mawrth 2022. Bu cynnydd yn nifer y swyddi gweithlu ym mhob cyfnod o dri mis ers Rhagfyr 2020. Rhwng Rhagfyr 2019 a Mawrth 2022, mae nifer y mae swyddi gweithwyr (heb gynnwys yr hunangyflogedig) wedi cynyddu 521,000, gan gyrraedd y lefel uchaf erioed, sef 31.3 miliwn. Fodd bynnag, mae nifer y swyddi hunangyflogaeth yn

parhau i fod 600,000 yn is na lefelau Rhagfyr 2019.

Mae amcangyfrifon cynnar o wybodaeth Talu Wrth Ennill Amser Real yn nodi bod nifer y gweithwyr cyflogedig ar y gyflogres yn 29.6 miliwn ym mis Mai 2022, cynnydd o 3.9% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2021^{13 14}. Roedd hyn hefyd yn gynydd cymedrol o 0.3% (90,000 o bobl) o'i gymharu â'r mis blaenorol. Gwelodd y sector llety a gweithgareddau gwasanaeth bwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y gweithwyr cyflogedig ar y gyflogres rhwng Mai 2021 a Mai 2022 (cynnydd o 289,000 o weithwyr), a'r sector adeiladu a welodd y cynnydd lleiaf (cynnydd o 2,000 o weithwyr). O gymharu Mai 2022 â Mai 2021, roedd cynnydd canrannol mewn gweithwyr cyflogedig ar y gyflogres yn amrywio o 0.2% yn y sector adeiladu i 19.2% yn y celfyddydau ac adloniant.

¹¹ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/businessinvestment/januarytomarch2022provisionalresults>

¹² <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/jobsandvacanciesintheuk/june2022>

¹³ Gweler <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/earningsandemploymentfrompayasyouearnrealtimeinformationuk/june2022>

¹⁴ Mae'r amcangyfrifon cynnar yn fwy tebygol o fod yn destun diwygiadau diweddarach.

Cymru'n gweld twf pellach mewn cyflogaeth ar y gyflogres

Yng Nghymru cynyddodd nifer y gweithwyr cyflogedig bron i 15,000 rhwng mis Mawrth a mis Mai 2022 i tua 1.3 miliwn, cyfradd twf uwch o gymharu â'r cyfnod diwethaf (lonawr i Fawrth 2022)¹⁵.

Erbyn Ebrill 2022, roedd nifer y gweithwyr cyflogedig ar y gyflogres yng Nghymru ym mron pob sector yn uwch na'r lefelau cyn-bandemig. Er enghraifft, yn y celfyddydau, adloniant a hamdden roedd nifer y gweithwyr cyflogedig ar y gyflogres 10% yn uwch nag ym mis Mai 2020.

Syrthiodd cyfradd ddiweithdra'r DU yn is na lefelau cyn-bandemig

Amcangyfrifwyd bod cyfradd ddiweithdra'r DU ar gyfer y cyfnod o dri mis hyd at Ebrill 2022 yn 3.8%, 0.2 pwynt canran yn is na'r cyfnod blaenorol o dri mis, a 0.1 pwynt canran yn is na'r lefel cyn-Covid-19¹⁶. Roedd cyfraddau diweithdra rhanbarthol uchaf y DU yn y tri mis hyd at Ebrill 2022 yn y Gogledd-ddwyrain (5.4%), Llundain (4.8%), a Swydd Efrog a'r Humber (4.6%), tra bod y cyfraddau isaf yng Ngogledd Iwerddon (2.6%), Dwyrain Canolbarth Lloegr (2.7%), a De-ddwyrain Lloegr (3.1%)¹⁷. Yn yr un cyfnod, amcangyfrifwyd bod y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru yn 3.5%.

Cofnodwyd y gyfradd ddiswyddo'r DU¹⁸ isafbwynt hanesyddol yn y cyfnod o dri mis hyd at Ebrill 2022. Yn ôl yr Arolwg o'r Llafurlu, gostyngodd y gyfradd diswyddo'r DU i 2.0 fesul 1,000 o weithwyr yn y cyfnod o dri mis hyd at fis Ebrill,

gan ostwng o 2.5 yn y tri mis yn y cyfnod hyd at ddiwedd mis Mawrth¹⁹. Gwelodd cyfradd dileu swyddi'r DU uchafbwynt o 14.1 fesul 1,000 o weithwyr yn y tri mis hyd at fis Tachwedd 2020.

Yng Nghymru, dim ond ar gyfer y cyfnod tri mis hyd at fis Mawrth 2022 yr oedd ffigurau ar gael. Roedd gostyngiad yn y gyfradd ddiswyddo yn y cyfnod hwn (2.9 fesul 1,000 o weithwyr), yn dilyn gostyngiad arall yn y cyfnod blaenorol o dri mis hyd at Chwefror 2022 (3.3). Roedd y gyfradd ddiswyddo yng Nghymru yn y cyfnod o dri mis hyd at fis Mawrth 2022 yn uwch na'r Alban (2.7), Gogledd Iwerddon (1.5), a Lloegr (2.5). Fodd bynnag, nid yw'r data hwn wedi'i addasu'n dymhorol, ac mae'n seiliedig ar samplau bach, felly dylid eu defnyddio'n ofalus.

¹⁵ Gweler troednodyn 13

¹⁶ Gweler troednodyn 13

¹⁷ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/regionallabourmarket/latest>

¹⁸ Y gyfradd diswyddo yw cymhareb y lefel diswyddo ar gyfer y chwarter penodol i nifer y gweithwyr yn y chwarter blaenorol, wedi'i luosi â 1,000.

¹⁹ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/redundancies>

Gostyngiad yn nifer y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra ym mis Mai 2022

Roedd y cyfrif o hawlwr budd-daliadau cysylltiedig â diweithdra yn y DU yn y flwyddyn hyd at fis Mai 2022 yn 1.61m o bobl²⁰. Yng Nghymru, hawliodd 66,275 o bobl fudd-daliadau cysylltiedig â diweithdra (sy'n cyfateb i 3.4% o'r boblogaeth oedran gweithio, o gymharu â 3.8% ar gyfer y DU) ym mis Mai 2022. Yr ardaloedd yng Nghymru â'r gyfran uchaf o'r boblogaeth oedran gweithio sy'n hawlio budd-

daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra oedd Casnewydd (5.0%), Blaenau Gwent (4.3%), Merthyr Tudful (3.9%) a Thorfaen (3.9%), a'r rhai â'r cyfrannau isaf oedd Sir Fynwy (2.3%), Powys (2.4%) a Cheredigion (2.6%). Parhaodd cyfran y boblogaeth o oedran gweithio a oedd yn hawlio budd-daliadau cysylltiedig â diweithdra ym mis Mai 2022 i ostwng ym mron pob isranbarth yng Nghymru.

Pwysau economaidd parhaus yn y DU er gwaethaf marchnadoedd llafur cryfach yn ystod 2022

Yn Arolwg Misol Panel Penderfynydd²¹ Banc Lloegr (Mai 2022), holwyd ymatebwyr am brif ffynonellau ansicrwydd ac am y tro cyntaf am eu disgwyliadau ar gyfer chwyddiant y mynegai prisiau defnyddwyr (MPD). O'i gymharu â'u fersiwn ddiwethaf ym mis Mawrth 2022, cafwyd dirywiad cymedrol yn yr ansicrwydd yn ymwneud â'r rhyfel yn yr Wcrain, Covid-19, a Brexit, tra daeth chwyddiant yn brif ffynhonnell ansicrwydd. Ar gyfartaledd, amcangyfrifwyd y byddai chwyddiant MPD ym mis Mai 2022 yn codi i 7.6% ac y gallai fod yn uwch yn y misoedd nesaf, tra mewn gwirionedd cyrhaeddodd chwyddiant MPD gwirioneddol ym mis Mai 2022 9.1%, sy'n llawer uwch na'r disgwyf²².

Dadansoddodd y Banc chwyddiant uchel presennol y DU a honnodd fod goresgyniad yr Wcrain, costau uwch nwyddau amaethyddol, cyflogau uwch yn cael eu cynnig i ymgeiswyr oherwydd marchnad lafur yn tynhau, a busnesau'n codi mwy am eu cynnyrch yn gyfranwyr allweddol²³. Awgrymodd y Banc hefyd y gallai fod angen mwy o addasiadau ariannol a chyfraddau llog i arafu cyflymder chwyddiant. Yn hyn o beth, mae ymchwilyr Forbes wedi dadlau y gallai'r cyfnodau clo yn Tsieina arwain at fwy o fygythiadau i chwyddiant mewn gwledydd datblygedig fel yr Unol Daleithiau oherwydd aflonyddwch yn y gadwyn gyflenwi²⁴.

²⁰ <https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/unemployment/datasets/claimantcountbyunitaryandlocalauthorityexperimental>

²¹ <https://www.bankofengland.co.uk/agents-summary/2022/2022-q2/latest-results-from-the-decision-maker-panel-survey-2022-q2>

²² <https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/may2022>

²³ <https://www.bankofengland.co.uk/knowledgebank/will-inflation-in-the-uk-keep-rising>

²⁴ <https://www.forbes.com/sites/jonathanponciano/2022/05/20/china-covid-lockdowns-threaten-to-fuel-us-inflation-as-economic-pessimism-grows/>

CDG yng Nghymru yn 2021 Ch3

Mae amcangyfrifon CDG chwarterol (arbrofol) yn dangos bod holl weinyddiaethau datganoledig y DU wedi profi twf CDG chwarterol cadarnhaol yn 2021 Ch3, ac eithrio Cymru. Cofnododd economi Cymru newid CDG chwarterol ar -0.3%, o gymharu â 0.9% yn yr Alban, 0.6% yn Lloegr ac

1.4% yng Ngogledd Iwerddon²⁵. Yng Nghymru, y diwydiant gyda'r twf mwyaf yn 2021Ch2 oedd llety a gweithgareddau gwasanaeth bwyd, a'r diwydiant gyda'r dirywiad mwyaf yn 2021 Ch3 oedd mwyngloddio a chwarelydda.

Rhagolygon economi'r DU a Chymru

Roedd cyhoeddiad rhagolwg Trysorlys Ei Mawrhydi ym mis Ebrill yn cynnwys cymhariaeth o ragolygon annibynnol a dderbyniwyd rhwng 1-13 Mehefin 2022. ²⁶ Y rhagolwg cyfartalog ar gyfer twf CDG y DU yn 2022 oedd 3.6%, a disgwylir twf o 0.9% yn 2023. Mae'r rhagolygon cyfartalog wedi'u hisraddio o gymharu â rhagolygon a wnaed mewn cyfnodau blaenorol. Mae cyfartaledd y rhagolygon annibynnol ar gyfer 2022 yn uwch na rhagolwg yr Economist Intelligence Unit (Mehefin 15) o 3.2% o dwf CDG yn 2022. ²⁷ Rhagamcan diweddaraf yr IMF o dwf CDG y DU oedd 3.7% yn 2022 a 1.2% yn 2023. Ar ddechrau mis Mai, diwygiwyd rhagolygon Banc Lloegr ar gyfer twf CDG y DU yn 2023 hefyd i lawr o 1.25% i -0.25%.

Yn eu Rhagolwg Economaidd y DU ar gyfer y Gwanwyn, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022,

torrodd NIESR ei ragolwg twf CDG y DU ar gyfer 2022 i 3.5% o 4.8%, ac israddio ei ragolwg ar gyfer 2023 i 0.8% o 1.3%²⁸. Roeddent hefyd yn pryderu am y tynhau cyllidol posibl a'i effaith ar adferiad economaidd yn y DU, y risgiau cynyddol o chwyddiant yn aros yn llonydd oherwydd y rhyfel yn yr Wcrain, a chostau byw uwch. Yn y cyhoeddiad hwn, rhagolwg NIESR yw bod GYG yng Nghymru wedi rhagori ar lefelau cyn-bandemig a disgwylir iddo dyfu ychydig yn gyflymach na chyfartaledd y DU. Roeddent yn amcangyfrif y byddai GYG yng Nghymru o gymharu â lefelau yn Ch4 2019 4.5% yn uwch erbyn 2022 Ch4 a 5.5% yn uwch erbyn 2023 Ch4. Mae NIESR yn nodi bod twf cyflogaeth yng Nghymru wedi perfformio'n well na chyfartaledd y DU, ond bod pryderon ynghylch cyfraddau anweithgarwch, gyda lefelau cynhyrchiant yn dal i lusgo y tu ôl i gyfartaledd y DU.

²⁵ <https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpukregionsandcountries/julytoseptember2021>

²⁶ <https://www.gov.uk/government/statistics/forecasts-for-the-uk-economy-june-2022>

²⁷ The Economist, rhifyn Mehefin 15fed 2022. Dangosyddion economaidd ac ariannol.

²⁸ <https://www.niesr.ac.uk/publications/sailing-treacherous-seas?type=uk-economic-outlook>

- Gwellodd Mynegai Hyder Busnesau Bach Cymru yn 2022 Ch1 ac aeth yn ôl i diriogaeth gadarnhaol.
- Roedd hyder BBaCh Cymru yn gydradd drydydd uchaf o ranbarthau'r DU yn 2022 Ch1.
- Cofnododd y DU a Chymru gynnydd cymharol uchel mewn marwolaethau busnes yn y flwyddyn hyd at 2022 Ch1.

Hyder busnesau bach yn cynyddu

Ar ôl y gostyngiad cymharol sydyn yn hyder busnesau bach a ddangoswyd ym Mynegai Busnesau Bach y DU²⁹ 2021 Ch4 i -8.5, dangosodd darlenniad hyder Chwarter 1 2022 gynnydd o 23.8 pwynt i +15.3 wrth i gyfyngiadau'r Llywodraeth a roddwyd ar waith i frwydro yn erbyn yr amrywiad Omicron COVID-19 gael eu llacio. Fodd bynnag, roedd y sgôr hyder hwn ar gyfer 2022 Ch1 yn is na'r ffigur cymharol o'r un chwarter yn 2021, lle'r oedd y mynegai yn +27³⁰.

Mynegai Hyder Busnesau Bach y DU yn cynyddu ym mhob sector yn 2022 Ch1

Gwelodd y mynegai hyder Llety a gwasanaethau bwyd y gwelliant chwarterol mwyaf o -33 yn 2021 Ch4 i +16.5 yn 2022Ch1. Er gwaethaf gwella 2.9 pwynt, arhosodd y sgôr ar gyfer gweithgynhyrchu yn negyddol (-9.1) am yr ail chwarter yn olynol yn 2022 Ch1. Yn yr un modd, gwellodd sgôr hyder y sector manwerthu a chyfanwerthu yn 2022Ch1 i -8.2 o -40.3.

Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach fod hyder mewn adferiad economaidd wedi cael ei niweidio gan bwysau prisiau. Roedd cyfres uchaf erioed o 86.7% o fusnesau'r DU a arolygwyd yn 2022 Ch1 yn nodi bod costau wedi cynyddu dros y tri mis diwethaf o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae pwysau costau a oedd yn bodoli yn flaenorol, oherwydd aflonyddwch cysylltiedig â COVID-19 mewn cadwyni cyflenwi byd-eang, wedi cael eu gwaethygu gan brisiau nwyddau cynyddol yn deillio o ddigwyddiadau daearyddol wleidyddol, yn enwedig y gwrthdaro yn yr Wcrain. Yn 2022 Ch1 busnesau bach yn y DU oedd fwyaf tebygol o enwi tanwydd (60.1%) a phrisiau cyfleustodau (58.0%) fel sbardun allweddol ar gyfer cynnydd mewn costau.

Mae nifer o heriau economaidd yn dod i'r amlwg sy'n debygol o gael effaith negyddol ar hyder economaidd yn y tymor agos, gan gynnwys yr argyfwng costau byw wrth i bwysau prisiau domestig gynyddu, a chwyddiant ar lefel nas gwelwyd ers 40 mlynedd.

²⁹ "Mae'r Mynegai Busnesau Bach yn fynegai pwysol o'r ymatebion i'r cwestiwn: 'O ystyried perfformiad cyffredinol eich busnes, ac anwybyddu unrhyw amrywiadau tymhorol arferol yr adeg hon o'r flwyddyn, sut ydych chi'n gweld rhagolygon busnes dros y tri mis nesaf, o gymharu â'r tri mis blaenorol?' Mae cyfran y cwmnïau sy'n nodi 'llawer gwell' yn cael y pwysoliad +2, ychydig wedi gwella +1, tua'r un 0, ychydig yn waeth -1, a llawer gwaeth -2; mae'r Mynegai Busnesau Bach yn deillio o gyfanswm y ffactorau hyn" (FFBB, 2020).

³⁰ FFBB (2021). Mynegai llais busnesau bach y FFBB, Chwarter 1 2022. Ar gael yn: <https://www.fsb.org.uk/static/b584ae33-10cc-40e7-a7c6a637371decf3/FSB-Small-Business->


Hyder BBaCh Cymru yn 2022 Ch1 yn adlamu i'r cadarnhaol

Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach fod hyder BBaChau yng Nghymru wedi cynyddu i diriogaeth gadarnhaol yn 2022 Ch1, i fyny 45.5 pwynt o 2021 Ch4 i +14. Dengys

Ffigur 1 mai dim ond rhanbarthau Llundain (+43) a Dwyrain Canolbarth Lloegr (+17) a sgoriodd yn uwch ar y mynegai hyder yn 2022 Ch1, gyda'r Alban yn gyfartal (+14).

Ffigur 1.

Mynegai Busnesau Bach, rhanbarthau'r DU, 2021 Ch2-2022 Ch1



Ffynhonnell: [Mynegai Llais Busnesau Bach y FfBB 2022 Ch1](#)

Twf allbwn cadarnhaol ar y cyfan ar draws sectorau gweithgarwch economaidd Cymru, yn enwedig ym maes cynhyrchu, a gwasanaethau marchnad yn 2021


Mae ffigurau gan StatsCymru yn datgelu bod allbwn adeiladu wedi gwella yn 2021 Ch4, tra bod allbwn mewn gwasanaethau cynhyrchu a marchnad wedi gostwng. Mae Ffigur 2 yn dangos y symudiad chwarterol ym mynegeion allbwn Cymru mewn gwasanaethau cynhyrchu, adeiladu a marchnad o 2018 Ch4 i 2021 Ch4. Gostyngodd y mynegai cynhyrchu, a oedd wedi aros yn weddol sefydlog rhwng 2021 Ch2 a 2021 Ch3 (ar 94.9

a 94.7 yn y drefn honno) i 91.8 yn 2021 Ch4.

Gostyngodd mynegai gwasanaethau marchnad o 103.3 yn 2021 Ch3 i 101.9 yn 2021 Ch4. Gyda stopiau gorfodol wedi'u gwneud mewn prosiectau adeiladu mawr yn ystod y cyfnod clo yn ystod hanner cyntaf 2020, mae'r mynegai adeiladu wedi gwella'n gadarn ers hynny. Cyrhaeddodd y mynegai adeiladu werth o 94.8 yn 2021 Ch4, i fyny o 90.6 yn 2021 Ch3.

Ffigur 2.

Mynegeion allbwn Cymru: tueddiadau 2018 Ch4 - 2021 Ch4 (2019=100)



Ffynhonnell: Stats Cymru, [Mynegeion Cynhyrchu ac Adeiladu Cymru \(2019=100\) fesul adran a blwyddyn](#) a [Mynegai Gwasanaethau Marchnad \(2019=100\) fesul blwyddyn ac ardal](#)

Cynnydd mewn genedigaethau a marwolaethau busnes yng Nghymru yn y flwyddyn hyd at 2022 Ch1

Arhosodd genedigaethau busnes yn y DU yn ddigynfnewid i raddau helaeth yn y flwyddyn hyd at 2022 Ch1, gan ostwng 0.3% i 136,390 mewn ffigurau a ddarparwyd gan SYG³¹. Cododd nifer y marwolaethau busnes yn y DU 23.5% yn gymharol sydyn o 111,145 yn 2021 Ch1 i 137,210 yn 2022 Ch1.


Roedd nifer y busnesau a gaewyd yn y DU yn 2022Ch1 41.5% yn uwch na chyfartaledd y busnesau a gaewyd yn ystod chwarter cyntaf y blynyddoedd calendr rhwng 2018 a 2021. Cafodd y cynnydd mewn marwolaethau busnes yn y flwyddyn hyd at 2022 Ch1 ei ddyblygu ym mhob rhanbarth yn y DU. Roedd y darlun ar gyfer genedigaethau busnes yn fwy amrywiol dros yr un cyfnod. Y sectorau â'r cynnydd cyfrannol blynyddol mwyaf mewn marwolaethau busnes yn 2022 Ch1 oedd cludo/storio, iechyd a gofal cymdeithasol, a chyfanwerthu. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith bod nifer gymharol uchel o enedigaethau

yn y sectorau hyn ar ddechrau'r pandemig – felly bu gwrthdroi effaith y pandemig yn 2022 Ch1.

Cofnododd Cymru gynnydd mewn genedigaethau busnes yn y flwyddyn hyd at 2022 Ch1. Cododd genedigaethau busnes yng Nghymru 3.3% yn y flwyddyn hyd at 2022 Ch1, gan gynyddu o 4,565 yn 2021 Ch1 i 4,715 yn 2022 Ch1. Yn dilyn y duedd a welwyd yn ffigurau'r DU ar gyfer cau busnesau, cynyddodd marwolaethau busnesau yng Nghymru o 4,075 yn 2021 Ch1 i 4,610 yn 2022 Ch1, gan godi 13.1% (yn dilyn y cynnydd o 29% mewn busnesau'n cau o 2020 Ch4 i 2021 Ch4). Roedd nifer y busnesau a gaewyd yng Nghymru yn 2022 Ch1 39.7% yn uwch na chyfartaledd y busnesau a gaewyd yn ystod chwarter cyntaf y blynyddoedd calendr o 2018 i 2021. Mae Ffigur 3 yn dangos y tebygrwydd rhwng nifer y marwolaethau busnes (4,610) a genedigaethau busnes (4,715) yn 2022 Ch1 ac yn amlygu pa mor anwadal yw'r set ddata hon ers 2017.

Ffigur 3.

Genedigaethau a marwolaethau busnes chwarterol yng Nghymru



Ffynhonnell: [Demograffeg busnes, ystadegau arbrofol chwarterol, DU](#)

³¹<https://www.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/activitysizeandlocation/datasets/businessdemographyquarterlyexperimentalstatisticsuk>

Yr amodau newidiol sy'n llywio'r galw am gyllid

Mynegodd Monitor Cyllid BBaCh y BVA BDRC gan ganolbwyntio ar y dadansoddiad treigl tri mis hyd at ddiwedd mis Ebrill 2022³² fod cyfran y BBaChau yn y DU (ac eithrio busnesau newydd) a nododd dwf yn y flwyddyn ddiwethaf wedi cynyddu i 25% yn 2021 Ch4 o 18% yn 2021 Ch3 ac wedi aros yn sefydlog ers hynny (gyda 24% o BBaCh y DU yn y 3 mis hyd at Ebrill 2022 yn nodi twf yn y flwyddyn ddiwethaf). Fodd bynnag, nodwyd bod y cyfrannau hyn yn dal i fod yn is na'r lefelau cyn-bandemig, gyda'r ffigur cyfatebol ar gyfer BBaChau yn y DU a arolygwyd yn 2019 gyfan yn 37%.

Yn ôl Monitor Cyllid BBaCh BVA BDRC, roedd 41% o'r BBaChau a holwyd yn y tri mis hyd at Ebrill 2022 wedi gweld dirywiad busnes yn y flwyddyn flaenorol, gan nodi gwelliant o 2021 Ch1 lle'r oedd y ffigur cyfatebol yn 65%. Yn 2020, nododd tua 19% o BBaChau ostyngiad yn y flwyddyn flaenorol. Arhosodd canran y busnesau bach a chanolig a arolygwyd yn y tri mis hyd at Ebrill 2022 a oedd â chynlluniau i dyfu yn y misoedd nesaf heb newid o gymharu â 2021 Ch4 (44%). Ar gyfer 2019 yn ei chyfarwydd, roedd disgwyl i 52% o BBaCh dyfu.

Datgelodd Arolwg o Effeithiau ac Amodau Busnes³³ (BICS) SYG ar gyfer y cyfnod 30 Mai 2022 i 12 Mehefin 2022 (Ton 58) fod cyfran holl fusnesau'r DU a ddywedodd eu bod wedi allforio yn ystod y deuddeg mis diwethaf (10.4%) wedi cynyddu ychydig ers y dechrau 2022 (y ffigur cyfatebol oedd 10.3% yn y cyfnod 27 Rhagfyr 2021 i 9 Ionawr 2022, Ton 47). Ar gyfer BBaCh, y canrannau a adroddodd yng Ngham 58 eu bod wedi allforio yn y 12 mis diwethaf oedd: 0 i

9 o weithwyr 9.4%; 10 i 49 o weithwyr 16.5%; 50 i 99 o weithwyr 28.8%; a 100 i 249 o weithwyr 34.3%. Pan ofynnwyd i'r mentrau allforio hyn gymharu maint yr allforion ym mis Mai 2022 â'r un mis calendr yn 2021, roeddent yn fwyaf tebygol o adrodd bod "allforio wedi aros yr un fath" (45%) neu "allforio llai" (29.2%) yn hytrach nag roedden nhw wedi "allforio mwy" (15.2%).

Datganodd is-lywydd comisiwn yr UE, Maroš Šefčovič, ym mis Mehefin 2022 fod masnach mewn nwyddau a gwasanaethau yn 2021 o'r DU i'r UE i lawr yn ddifrifol o gymharu â lefelau 2019 gyda rheolaethau ffiniau newydd yn cael eu cyflwyno³⁴. Gwelwyd effeithiau Brexit ar fasnach yn ymarferol mewn mwy o waith papur a gwiriadau. Fodd bynnag, roedd newyddion gwell i allforion o Gymru. Mae data masnach ar gyfer blwyddyn galendr 2021 yn dangos bod allforion bwyd a diod o Gymru wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed, sef £641m³⁵. Roedd hyn £89m yn uwch na'r ffigur cymharol yn 2020 ac yn cynrychioli cynnydd o 16.1%, y cynnydd canrannol mwyaf o'r pedair gwlad ddatganoledig yn y DU. Cynyddodd allforion bwyd a diod o Gymru i'r UE £51m rhwng 2020 a 2021 i £465m. Bydd angen monitro'n ofalus i ba raddau y bydd y cynnydd hwn yn gynaliadwy dros y flwyddyn nesaf.

Adroddodd adroddiad BICS am y cyfnod 30 Mai 2022 i 12 Mehefin 2022 hefyd mai'r prif bryder i fusnesau ym mis Gorffennaf 2022 oedd chwyddiant mewn prisiau da a gwasanaethau, gyda hyn yn cael ei nodi gan 32.4% o fentrau'r DU a 35.2% o fentrau yng Nghymru. Nodwyd prisiau ynni ac amhariad ar y gadwyn gyflenwi yn aml hefyd fel pryderon.

³² <https://www.bva-bdrc.com/wp-content/uploads/2022/06/SME-Monthly-charts-Apr-22-FINAL.pdf>

³³ <https://www.ons.gov.uk/economy/economicoutputandproductivity/output/datasets/businessinsightsandimpactontheeconomy>

³⁴ <https://www.ft.com/content/c1821751-731a-49c3-b563-ca0241107b27>

³⁵ <https://gov.wales/welsh-food-and-drink-exports-hit-record-high>

- Tyfodd cyfradd ddiodyn y DU ar fenthyciadau i fusnesau bach yn 2022Ch2.
- Mae data benthycia cod post Cyllid y DU yn dangos ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2021 Ch3 amcangyfrifwyd mai £20.4bn oedd cyfanswm y benthyciadau i BBaCh, sef cynnydd o tua 15% ar gyfer y flwyddyn.
- Yn 2021, cyhoeddwyd 60 o gytundebau ecwiti yng Nghymru gyda gwerth buddsoddi o £83m; roedd y gwerth hwn i fyny 44% ers 2020.
- Mae effaith sylweddol pwysau chwyddiant ar gwmnïau yn dechrau dod i'r amlwg yn y Monitor Cyllid BBaChau. Yn y tri mis hyd at Ebrill 2022, nododd 29% o'r ymatebwyr fod yr hinsawdd economaidd bresennol yn rhwystr mawr i redeg busnes dros y flwyddyn nesaf.

Ychydig o newid yn y credyd busnes sydd ar gael

Ychydig iawn o newid a welwyd yn chwarter cyntaf 2022 yn argaeledd cyffredinol credyd i bob maint busnes yn ôl Arolwg Amodau Credyd Banc Lloegr³⁶. Gofynnwyd i'r benthycwyr a ymatebodd i'r arolwg ystyried newidiadau yn y tri mis hyd at ddiwedd Chwefror 2022 (Ch1 ar gyfer yr Arolwg Banc Lloegr hwn) o gymharu â'r cyfnod Medi a Thachwedd 2021 (Ch4). Ystyriwyd y cyfnod cynharach hwn yn Adroddiad chwarterol Dirnad Economi Cymru³⁷ ym mis Mehefin. Gofynnwyd i'r un benthycwyr hefyd ystyried newidiadau a ddisgwylir yn y cyfnod dilynol rhwng mis Mawrth a mis Mai 2022 (Ch2).

Datgelodd benthycwyr mai ychydig iawn oedd y credyd sydd ar gael i fusnesau wedi

newid yn Ch1 2022 a bod disgwyl iddo aros yn ddigynnewid yn ystod 2022 Ch2 a gyda'r casgliad hwn yn dal waeth beth fo maint y benthyciwr corfforaethol. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o ddisgwyliad y byddai'r galw am arian o bob maint busnes yn cynyddu yn 2022 Ch2 (ond gweler isod ar gyfradd twf benthyciadau BBaCh), ac roedd benthycwyr hefyd yn disgwyl y byddai lledaeniadau benthycia i gwmnïau bach a mawr yn ehangu yn ystod 2022 Ch2. Ffactorau allweddol a nodwyd fel rhai a oedd yn cyfrannu at unrhyw newidiadau mewn argaeledd credyd drwy 2022 Ch2 oedd y newid yn y rhagolygon economaidd, pwysau o farchnadoedd cyfalaf ac amodau ariannu cyfanwerthu.

³⁶ [Credit Conditions Survey - 2022 Q1 | Bank of England](#)

³⁷ <https://developmentbank.wales/sites/default/files/2022-06/EIW%20Quarterly%20report%20Q4%202022%20CY%20V4.pdf>


Peth cynnydd mewn ardrethi diofyn busnes

Datgelodd Arolwg Amodau Credyd Banc Lloegr a gynhaliwyd rhwng 28 Chwefror a 18 Mawrth fod y gyfradd ddiodyn ar fenthyciadau i fusnesau bach wedi newid o +3.4 yn y 3 mis cyn yr Arolwg i'r gyfradd ddisgwyliedig. +25 am y tri mis nesaf ar ôl yr Arolwg. Yn 2021 Ch1 y ffigurau cymaradwy oedd +13.5 a +24.7 yn y drefn honno.³⁸ At hynny, gwelodd y galw yn y dyfodol am fenthycia cardiau credyd gan fusnesau bach, a'r galw am fenthycia ansicredig hefyd falansau cadarnhaol cryf ar gyfer Ch2 2022 (hy, +22.4, a +19.8) yn y drefn honno. Mae amodau busnes llymach yn dilyn chwyddiant cynyddol yn dechrau taro sefyllfa cyfalaf gweithio cwmnïau llai ac yn eu gwthio tuag at lefelau uwch o alw am arian allanol.

Mae Ffigur 4 yn datgelu data Banc Lloegr mewn perthynas â chyfradd twf misol benthyciadau BBaCh³⁹. Roedd hyn yn dal i fod mewn tiriogaeth negyddol ym mis Ebrill 2022 ar -5.3%. Mewn cymhariaeth, yr un gyfradd twf misol o fenthyciadau BBaCh ym mis Ebrill 2021 oedd 25.4%. Mae'r gyfradd twf misol ar fenthyciadau BBaCh wedi bod mewn tiriogaeth negyddol ers mis Medi 2021 ar ôl cyrraedd uchafbwynt o 26.3% yn y mis hyd at Chwefror 2021. Mae Ffigur 4 yn datgelu bod Covid-19 a mesurau lliniaru dilynol megis mentrau Llywodraeth y DU/Banc Busnes Prydain i gynyddu'r cyflenwad cyllid i fusnesau, wedi cael effaith enfawr ar faint y niferoedd cadarnhaol o fis Mai 2020 ymlaen hyd at fis Mai 2021.

Ffigur 4.

Cyfradd twf benthyciadau BBaCh a chyfraddau llog ar fenthyciadau BBaCh



Ffynhonnell: Banc Lloegr

